


# Llwybr y Ddwy Goedwig
# Two Woods Walk

**Taith gron rhwng dwy o Warchodfeydd Natur Lleol Aberystwyth**

**A circular walk linking two of Aberystwyth's Local Nature Reserves**

## Parc Natur Penglais


Arferai coed Parc Natur Penglais fod yn rhan o Ystâd Penglais yn y ddeunawfed ganrif, a gellir gweld hyd heddiw rai o'r clystyrau gwreiddiol o goed ffawydd a'r meini oedd yn dynodi ffiniau'r caeau. Mae'r llethrau cysgodol sy'n wynebu'r de yn gynefin i amrywiaeth helaeth o blanhigion ac anifeiliaid, ac mae'n werth ymweld â'r parc yn y gwanwyn i weld bwtsias y gog yn eu holl ogoniant.

Roedd y chwarel ar ochr orllewinol y warchodfa yn cael ei gweithio yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yma y cloddiwyd y cerrig ar gyfer rhai o dai'r dref. Bellach, mae'r llethrau moel a'r pantiau cysgodol wedi'u gorchuddio gan blanhigion fel chwerwlys yr eithin a gludlys arfor, yn ogystal ag eithin, banadl a drain duon. Efallai y gwelwch ymlusgiaid ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn torheulo, ac adar ysglyfaethus fel y cudyll coch yn eu hela. O'r fan hon ceir golygfeydd ysblennydd o'r dref a'r arfordir.

Mae'r warchodfa yn dibynnu ar ymdrechion grŵp cymorth lleol, a chydnabuwyd eu gwaith caled yn 2011 pan roddwyd Baner Werdd i'r Parc – y lle cyntaf yng Ngheredigion i ennill y statws hwnnw.



© David Kirkby




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2012.
© Crown copyright. All rights reserved. Ceredigion County Council, 100024419, 2012

## Parc Natur Penglais

The woods of Parc Natur Penglais were part of the 18th century Penglais Estate and some of the original clumps of beech trees and stone field boundaries can still be seen. The sheltered, south-facing slopes support a wide range of woodland plants and animals, and are well worth a special visit in the spring for the fine show of bluebells.

The quarry forming the western part of the reserve was last worked in the 1800s and provided stone for some of the town's houses. Its exposed slopes and sheltered hollows are covered in plants such as wood sage and sea campion as well as gorse, broom and blackthorn scrub. Reptiles and invertebrates bask in the open areas, hunted by birds such as kestrels. The viewpoint here gives spectacular views across the town and coastline.

The reserve relies on an active local support group and their hard work was recognised in 2011 by the award of Green Flag status – the first in Ceredigion.



Telor yr Helyg / Willow Warbler © Laurie W right



Ffyngau / Fungi © David Kirkby



Coed y Cwm - Oddeutu 1910 / Coed y Cwm - Circa 1910

## Rheoli gwarchodfeydd

Adain Arfordir a Chefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion sy'n rheoli'r gwarchodfeydd, gyda'r nod o warchod y bywyd gwyllt yn ogystal ag annog pobl i'w mwynhau yn dawel. Caiff y coed eu torri i ysgogi amrywiaeth iach a galluogi'r golau i gyrraedd y planhigion ar lawr y goedwig, a byddwn yn torri'r prysgwydd yn yr hen chwareli er mwyn hybu'r amrywiaeth o gynefinoedd. Eir i'r afael â rhywogaethau ymledol anfrodorol megis rhododendron.

Gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â'r rhan helaeth o'r gwaith o reoli'r gwarchodfeydd a llwybrau'r sir – os hoffech chi gyfrannu neu ddysgu mwy, cysylltwch â Swyddog Cadwraeth Ceredigion yn y cyfeiriad dros y tudalen.


## Reserve management

The reserves are managed by Ceredigion County Council's Coast and Countryside Section, both for their wildlife, and to encourage quiet enjoyment by people. The wooded areas are thinned to encourage a healthy age range of trees and to allow light to reach the plants on the forest floor, while scrub is cut back on the quarries to increase the variety of habitats. Non-native invasive species such as rhododendron are actively controlled.

Much of the management work in the reserves and on the county's footpaths is carried out by volunteers – if you want to get involved or find out more, please contact Ceredigion's Conservation Officer at the address overleaf.



Tegeirian Nyth Aderyn / Birds-nest Orchid © Steve Coates




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2012.
© Crown copyright. All rights reserved. Ceredigion County Council, 100024419, 2012

## Coed y Cwm

Er mai dim ond caeau defaid a chwrs golff a saif rhwng Parc Natur Penglais a Choed y Cwm, mae byd o wahaniaeth rhwng y ddau le. Mae'r llethrau sy'n wynebu'r gogledd yn goed i gyd, gydag ynn yn bennaf. Yn y cysgodion ceir amrywiaeth o redyn, bwtsias y gog, gwyddfid, craf gwyllt, llysiau'r swynwr, y bendigeidlys a thegeirian nyth aderyn, sy'n blanhigyn prin.

Yr hyn sy'n arbennig am y warchodfa hon yw'r coed llydan-ddeiliog hanesyddol – mae Coed y Cwm yn goedwig hynafol lled-naturiol a fu unwaith yn rhan o hen ystâd Plas Cynfelin.

## Coed y Cwm

Separated from Parc Natur Penglais by sheep-grazed fields and a golf-course, Coed y Cwm has a very different feel. Its north-facing slopes are covered in woodland dominated by ash trees. The shade-tolerant plants found beneath include a variety of ferns, bluebells, honeysuckle, wild garlic, enchanter's nightshade and wood avens, as well as the scarce bird's nest orchid.

What makes the reserve so special is the long history of broadleaved woodland cover – Coed y Cwm is an ancient semi-natural woodland that once formed part of the old Plas Cynfelin estate.

## Llwybr y Ddwy Goedwig

Ceir tair Gwarchodfa Natur Leol yn Aberystwyth a'r cyffiniau. Mae'r daith gron yma'n cysylltu dwy ohonynt – Parc Natur Penglais a Choed y Cwm – ac yn rhoi golygfeydd godidog o Fynyddoedd Cambria, Eryri a Bae Ceredigion.

**Y llwybr**

Tair milltir a hanner yw hyd y llwybr, sy'n cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau caniataol a dau ddarn sy'n mynd ar hyd y ffordd. Mae'r llwybr yn dechrau wrth fynedfa Parc Natur Penglais ar ben dwyreiniol Ffordd y Gogledd, a bydd arwyddion yn eich cyfeirio at y warchodfa. Os dymunwch chwilota ymhellach, ceir rhwydwaith dda o lwybrau yn y naill warchodfa a'r llall (gweler y lluniau). Mae taflen OS Explorer 213 (Aberystwyth a Chwm Rheidol) yn dangos y llwybr hwn a'r ardal oddi amgylch.

## Two Woods Walk

Aberystwyth has three Local Nature Reserves on its doorstep. This circular walk links two of them – Parc Natur Penglais and Coed y Cwm, and gives spectacular views of the Cambrian Mountains, Snowdonia and Cardigan Bay.


**The route**

The 3½ mile walk follows public rights of way and permissive paths, with two short sections on the road. The route starts at the entrance to Parc Natur Penglais at the eastern end of North Road, following the signposted footpath into the reserve. Both reserves have a good network of paths if you want to explore further (see insets). OS Explorer sheet 213 (Aberystwyth and Cwm Rheidol) covers this walk and the wider area.










© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2012.
© Crown copyright. All rights reserved. Ceredigion County Council, 100024419, 2012




**Rhagor o wybodaeth:**
Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

**01545 570881**
**www.ceredigion.gov.uk**

**Canolfan Croeso Aberystwyth: 01970 612125**

**Cludiant cyhoeddus:** Mae'r llwybr yn dechrau oddeutu hanner milltir o'r orsaf reilffordd a'r safle bysus. Dilynwch yr arwyddion o'r orsaf at y Brifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol, a throwch i'r chwith i fynd ar Ffordd y Gogledd (a dechrau'r llwybr) gyferbyn â Thafarn y Cŵps.

**Cofiwch ddilyn y Cod Cefn Gwlad**

Efallai y bydd anifeiliaid yn pori yn y caeau'r naill ochr i'r llwybr, a gall fod yn fwdlyd dan draed mewn tywydd gwlyb. Byddwch yn arbennig o ofalus wrth gerdded ger ymyl y graig.

**Further Information:**
Coast and Countryside Section
Ceredigion County Council
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

**01545 570881**
**www.ceredigion.gov.uk**

**Aberystwyth Tourist Information: 01970 612125**

**Public transport:** The walk starts around ½ mile from Aberystwyth bus and rail station. Follow the signs from the station towards the University and National Library then turn left onto North Road (and the start of the walk) opposite the Coopers Arms Hotel.

**Please remember to follow the countryside code**

Livestock may be grazing fields along the route and paths may be muddy following rainfall. Take extra care on cliff top paths.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government